# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Iau 25 Chwefror 2021**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Mary Jones

**Cyngor Sir**
Y Cynghorydd Rheinallt Puw
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Dyfrig Jones

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam
Y Cynghorydd Michael Williams

1. **Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Einir Williams.
   **Ymddiheuriadau** –gan y Cyng. Pearl Evans.

**2. Datgan Diddordeb**
Eitem 6-Partneriaeth Ogwen: Y Cyng. Neville Hughes.

**3. Materion Brys**
**3.1 Cystadleuaeth Ffenestr Nadolig –** 1af – Copa, 2il – Caffi Seren, 3ydd- Ann Jeanette. Y Cyng. Godfrey Northam wedi holi os oedd angen cynnwys addurno tu mewn i'r siopau hefyd, ond yn dilyn pleidlais, penderfynwyd yn erbyn hyn.
**3.2 Gardd ger Annie's –** trafodwyd yr ardd, lle bydd murlun yn cael ei osod ar dalcen yr eiddo. Penderfynwyd mai Gardd Tan Twr fydd yr enw swyddogol.
Cyhoeddwyd bod Partneriaeth Ogwen/Dyffryn Gwyrdd wedi llwyddo cael arian grant gan Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer adnewyddu gerddi cymunedol, ac mai'r bwriad yw uwchraddio gardd Tan Twr a Llys Dafydd, ac hefyd creu gardd fechan yn Nhal y Bont.
**3.3 Y Gofeb** – y Cyng. Rheinallt Puw wedi codi'r mater y buasai'n dda gael glanhau'r safle o amgylch y gofeb, i gyd fynd gyda'r glanhau palmant sydd yn digwydd ar hyn o bryd. Y Cyngor wedi cytuno.
Y Clerc wedi derbyn dyfynbris hefyd ar gyfer safle Llys Dafydd ac hefyd yr ardal tu allan i'r safle. Cyrtunwyd i wneud y gwaith hyn hefyd.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2021.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**

**5.1** Arwyddion newydd Ogwen Bank – Mae'r arwyddion wedi cael eu tynnu lawr, ond angen i'r polion ddod lawr hefyd. Y Clerc wedi siarad gyda'r Adran Cynllunio, sydd am gysylltu gyda'r perchnennog unwaith eto.

**5.2** Lloches bws Sgwar Rachub a Braichmelyn –y Clerc i drefnu cyn gynted a bo modd.

**5.3** Ffordd Coetmor, cyflwr y lôn yn ofnadwy, yn enwedig wrth y llyfrgell. Llawer o dyllau angen eu llenwi. Gwaith 'patcho' wedi ei wneud, ond ddim digon da.

**5.4** Stryd Fawr, Rachub – o Capel Carmel at y Sgwâr. Y ffordd angen sylw. Cyngor Gwynedd wedi llenwi'r twll mwyaf, ac mwy na thebyg na gwaith 'patcho' fydd yn cael ei wneud ar y gweddill hefyd, yn hytrach na ail-arwynebu'r ffordd.

**5.5** Rhos y Nant – dŵr yn sefyll, angen sylw i'r draeni. Dim ymateb hyd yn hyn. Cyngor Gwynedd am wneud archwiliad arall ar y safle.

**5.6** CCTV Stryd Fawr – y Clerc i fynd ar ôl Cyngor Gwynedd.

**5.7** Parc Meurig – llechi gyda cerfluniau cymeriadau Llyfr Mawr y Plant. Angen eu paentio/adnewyddu. Y Cyng. Rheinallt Puw i'w drafod gyda swyddog LleChi - ar y gweill.

**5.8** Arwyddion stryd – arwydd ar gyfer Sgwar Buddug wedi ei gam-sillafu ac y Cyngor yn awyddus i gael arwydd ar gyfer Lôn Pâb ac Allt Caffi hefyd. Y Clerc i holi unwaith eto.

**5.9** Llwybr o Gwernydd i Abercaseg – y llwybr wedi dirywio yn ofnadwy. Cyngor Gwynedd wedi derbyn grant ar gyfer gwneud y gwaith. Y gwaith ar y llwybr wedi ei gwblhau, ond angen gosod giatiau newydd cyn bydd y llwybr yn ail-agor i'r cyhoedd.

**5.10** Llinellau melyn ym Mhant Dreiniog – llinellau wedi eu gosod oherwydd y loriau oedd yn arfer ymweld a C L Jones. Y Cyng. Rheinallt Puw wedi holi CL Jones ac am ddisgwyl i weld pwy fydd perchennog newydd y safle.

**5.11 Diffibriliwr ar gyfer Rachub a Gerlan –** penderfynwyd bod y Cyngor yn awyddus i osod un wrth Siop Rachub, ac un arall wrth y Caban yn Gerlan. Y Clerc i siarad gyda'r perchnogion.

**6. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**

Pawb wedi derbyn copi o Raglen Waith Partneriaeth Ogwen, gyda adroddiad o gynnydd yr holl brosiectau. Y Cyngor eisiau llongyfarch y staff i gyd, ac yn ymfalchio bod yn rhan o bobeth sy'n mynd ymlaen. Diolch yn fawr i Bartneriaeth Ogwen.

**7. Rhoddion 2020-21**

Trafodwyd y rhestr ceisiadau. Penderfynwyd ar y swm y byddai pob mudiad yn ei dderbyn.
*(Y Cynghorwyr wedi datgan diddordeb yn y man priodol)*

| | |
|---|---|
| Llais Ogwan | £400 |
| Clwb Camera Dyffryn Ogwen | £100 |
| Clwb Cymdeithasol Gerlan | £150 |
| Clwb pêl-droed Ieuenctid Bethesda | £150 |
| Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen | £400 |
| Theatr Bara Caws | £250 |
| Gwyl Afon Ogwen | £175 |
| Eglwys Crist Glanogwen | £300 |
| Swyddog Hybu Rygbi | £500 |
| Clwb Criced a Bowlio | £200 |
| Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd | £50 |
| Dawns i Bawb | £50 |
| Ffermwyr Ifanc Eryri | £100 |
| Ambiwlans Awyr Cymru | £50 |

| | |
|---|---|
| Radio Ysbyty Gwynedd | £100 |
| Balchder Bro (gofynion ychwanegol oherwydd Covid) | £500 |
| | |
| Caban Gerlan | £1500 |
| Balchder Bro Ogwen | £1000 |

**8. Cynrychiolydd Ynni Ogwen**

Y Cyng. Dyfrig Jones wedi sefyll lawr fel cynrychiolydd. Etholwyd y Cyng. Gwilym Owen yn ei le.

**9. Maes parcio Gerlan**

Dim penderfyniad wedi dod ynglŷn a'r cais am fenthyciad i'r Llywodraeth.

**10. Gohebiaeth**

Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Chwefror 2021'

**10.1** E-bost gan Cyng. Michael Williams – materion Rachub.

- Maes parcio Rachub, oes bosib ymestyn yr un yn Lôn Groes wrth gymryd darn o'r cae chwarae? Trafodwyd mai Cyngor Gwynedd sydd berchen y tir, a phenderfynwyd trafod ymhellach unwaith bydd maes parcio Gerlan wedi ei gwblhau.
- Mwy o offer i'r cae chwarae – trafodwyd bod un eitem newydd ar y gweill, fel rhan o'r pryniant ar gyfer ymestyn y cae chwarae ym Mhantdreiniog

**10.2** Ebost gan Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – yn adolygu Fframwaith Taliadau Cynghorau Cymuned a Thref – ac yn chwilio am ddatganiad o ddiddordeb gan gynghorau unigol i gymryd rhan yn y broses adolygu. Penderfynwyd bod y Cyngor yn fodlon cymryd rhan.

**10.3** E-bost gan Parc Cenedlaethol Eryri – ymgynghoriad cyhoeddus – Canllaw Cynllunio Atodol Drafft – Cynllunio a'r iaith Gymraeg. Y Cyngor yn cefnogi'r sylwadau.

**10.4** E-bost gan Cylch yr Iaith – ynglŷn a'r datblygiad ger Maes Bleddyn. Y Cyngor yn cytuno bod angen mwy o fyngalos, gan eu bod yn derbyn ceisiadau gan drigolion Rachub.

**10.5** Ebost gan Cylch yr Iaith – cais safle Treftadaeth y Byd i dirwedd y Llechi – rhaid cael rheolaeth gymunedol ac amodau iaith llym. Y Cyngor yn gefnogol mewn egwyddor, ond ddim eisiau colli'r cyfle gyda UNESCO.

**10.6** Ebost gan Cyngor Gwynedd – am y twmpathau fydd yn cael eu gosod ar Llwyn Bleddyn, rhwng Maes Bleddyn a Llwyn Bedw.

**10.7** Ebost gan y Cyng. Paul Rowlinson ar ran Cynghorwyr Dyffryn Ogwen ynglŷn a cynlluniau ar gyfer creu llwybr diogel ar gyfer beicio rhwng Rachub a Lôn Las Ogwen. Y Cyngor yn gefnogol o'r syniad.

**10.8** Cyngor Gwynedd – cynllun parcio 10% ar gyfer maes parcio Cae Star, lle byddai modd ychwanegu 10% ar ben y ffioedd parcio presennol a defnyddio'r incwm ychwanegol ar gyfer prosiectau yn y gymuned. Penderfynwyd nad oes gan y Cyngor ddiddordeb mewn codi'r ffioedd parcio.

**10.9** Cyngor Cymuned Llanllechid – wedi ysgrifennu at Adra ynglŷn a'r problemau traffig ym Maes Bleddyn a mynediad i Ysgol Llanllechid. Y Cyngor yn cefnogi sylwadau Cyngor Cymuned Llanllechid.

**10.10** Ebost gan Un Llais Cymru – hyfforddiant sydd ar gael yn ystod mis Mawrth. Y Cyng. Walter Williams yn eisiau mynychu, ond yn awyddus derbyn y hyfforddiant yn Gymraeg.

**10.11** Un Llais Cymru – bwletin newyddion mis Chwefror.

Arolwg Eich tref, eich dyfodol. Pawb i'w lenwi cyn gynted a bo modd.

Y rheol anghymwyso ar gyfer peidio mynychu cyfarfodydd – mae'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws)(Cyfarfodydd)(Cymru)2020 yn darparu amrywiad dros dro i'r rheol arferol. Mae'n ofynnol i'r aelodau hysbysu'r Clerc o flaen llaw o absenoldeb.
Cofrestrfa Tir EM-arolwg o Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru – y Clerc wedi llenwi'r holiadur yn barod.

**11. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**
**C20/0716/13/LL**
1 Lon Sarnau, Bethesda

Cais ar gyfer trosi modurdy i anecs is-raddol i'r eiddo adnabyddir fel '1 Lon Sarnau, Ffordd y Stesion, Bethesda'
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C20/0152/13/LL**
4 Rhes Ogwen

Cais ar gyfer trosi is-lawr eiddo i uned breswyl hunan gynhaliol ynghŷd a rhannu modurdy cefn i fodurdy a phorth car
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C20/0805/13/LL**
Tir ger Gwernydd, Gerlan

Cais ar gyfer adeiladu maes parcio
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C20/1085/13/LL**
Cyngor Gwynedd, Plas Ffrancon, Bethesda

Cais ar gyfer newid defnydd tir i greu rhandiroedd
**Penderfyniad:** Datblygiad caniataol. Nid oes angen caniatad cynllunio ffurfiol am ddatblygiad o'r math.

**<u>Ceisiadau</u>**
**C21/0087/13/DT**
Ty'n Llan, 17a Pant Glas, Bethesda

Cais i godi estyniad deulawr i ochr yr eiddo.
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**12. Taliadau**
<u>Awdurdodwyd y canlynol</u>

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Chwefror) | £302.27 |
| CThEM (Chwefror) | £75.60 |
| Cyngor Gwynedd-gosod goleuadau Nadolig | £2350.06 |
| Dŵr Cymru | £9.48 |
| Dŵr Cymru | £34.52 |